ATAL GWENWYN PLWM AR Y FFERM

Amddiffyn eich da byw, eich busnes a bwyd y DU

Veterinary Laboratories Agency®

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Y broblem

- Mae mwy na hanner y digwyddiadau ar ffermydd sy'n cael eu cyflwyno gerbron yr Asiantaeth Safonau Bwyd bob blwyddyn yn cael eu hachosi gan wenwyn plwm neu o ganlyniad i gysylltiad â phlwm. Mae'r digwyddiadau hyn yn achosi risg i ddiogelwch bwyd.
- Yn 2008, cafodd 2,500 o anifeiliaid eu cadw o'r gadwyn fwyd ym Mhrydain, ar ôl i 226 o anifeiliaid ddangos symptomau o wenwyn plwm a bu farw 127 o anifeiliaid.
- Mae gwenwyn plwm yn lladd. Gall effeithio ar wartheg, defaid, moch, dofednod a rhai anifeiliaid eraill. Gall gwartheg farw'n sydyn, mynd yn anffrwythlon, dangos arwyddion o afiechyd nerfol neu fynd yn ddall.
- Os daw anifeiliaid i gysylltiad â phlwm, gall gynyddu'r lefelau plwm mewn cig, offal a llaeth fel eu bod yn uwch na'r terfynau cyfreithlon mewn bwyd. O ganlyniad, ni fydd yn ddiogel iddynt fod yn rhan o'r gadwyn fwyd.

Mae digwyddiadau gwenwyn plwm yn cynyddu yn ystod y gwanwyn, pan gaiff anifeiliaid eu troi allan.

Gwenwyn plwm yn y DU

Ddechrau 2006, ar fferm yn Swydd Gaerlŷr, cafodd gweddillion batri cerbyd eu cymysgu yn ddamweiniol â bwyd anifeiliaid. O ganlyniad, bu farw 26 o 60 o heffrod / treisiedi beichiog a buchod magu.

Fis Mawrth 2008, effeithiodd gwenwyn plwm ar grŵp o 50 o fuchod godro ar fferm yn Swydd Amwythig ar ôl iddynt fod yn pori yn agos at fwynglawdd plwm – roedd arwyddion gwenwyn plwm i'w gweld ar 14 ohonynt a bu farw 6.

Fis Awst 2008, yng Nghanolbarth Lloegr, bu nifer o anifeiliaid farw mewn grŵp o 80 o fuchod sugno a lloi, ar ôl i rywun fod yn tipio yn anghyfreithlon gan adael tri batri plwm ar y tir.

Sut allwch chi arbed arian?

Mae gwenwyn plwm mewn anifeiliaid yn costio arian:

- anifeiliaid yn marw, cael gwared â'r cyrff, ffioedd milfeddygon
- anifeiliaid yn tyfu'n arafach neu ddim o gwbl
- cynnydd mewn diffygion geni ac anffrwythlondeb
- colli gwerth marchnad, lleihad mewn cynhyrchiant

Sut i osgoi pridd wedi'i halogi?

Mae lefel y plwm yn y pridd yn uwch yn naturiol mewn rhai rhannau o'r DU – os defnyddir y tiroedd hyn ar gyfer pori, tynnwch yr anifeiliaid oddi arnynt am 16 wythnos cyn iddynt fynd i'w lladd. Os bydd tir wedi'i halogi'n ddrwg, ni ddylech ei ddefnyddio fel tir pori.

Cadwch anifeiliaid yn ddiogel drwy:

- **gadw'r borfa'n drwchus a ddim yn rhy fyr**
- **peidio â gadael i dir gael ei bori yn rhy ddwys**
- **peidio â gadael i anifeiliaid bori ar dir sy'n llawn dŵr**
- **rhoi ffens o gwmpas ardaloedd lle mae pridd moel**
- **darparu llyfleoedd halen a blociau mwynau**
- **mynd ati i lefelu twmpathau twrch daear (gwahadden)**
- **defnyddio cyflenwad dŵr o gafn, yn hytrach na phyllau naturiol neu ddŵr wedi rhedeg oddi ar y tir**
- **wrth wneud silwair, gosod y torwyr glaswellt i godi cyn lleied o bridd ag y bo modd**

Sut i osgoi halogiad plwm ar eich fferm?

Fel cynhyrchwr cynradd, gallwch chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu'r gadwyn fwyd:

Chwilio am fatris cerbydau, ceir wedi'u llosgi a hen beiriannau mewn caeau ac ysguboriau yn rheolaidd.

Gwylio am bobl yn tipio sbwriel yn anghyfreithlon.

Chwilio am baent plwm a phwti sy'n dod yn rhydd.

Sicrhau na all eich anifeiliaid fynd at ludw coelcerth, pibelli a sêl blwm (fel yr un oddi ar doeau).

Trefnu bod eich anifeiliaid yn bwyta cyn lleied o bridd ag sy'n bosibl.

Gall plwm hefyd ddod o fatris ffensys trydan, pelenni plwm (gwn) a thomenni pridd o fwyngloddiau plwm.

Os ydych chi'n amau bod gwenwyn plwm:

- **stopiwch beth bynnag sy'n ei achosi, ar unwaith, ac atal da byw rhag mynd ato**
- **symudwch yr anifeiliaid**
- **holwch am gyngor milfeddyg**

Rhagor o wybodaeth

Mae'n rhad ac yn syml i drefnu profion plwm mewn da byw, cynnyrch neu bridd. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch milfeddyg neu â labordy rhanbarthol yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol:

ffôn: 01932 357335
e-bost: lab.testing@vla.defra.gsi.gov.uk
www.defra.gov.uk/vla/vla/vla_map.htm

Gallwch ddarllen am wenwyn plwm a sut i atal digwyddiadau eraill ar y fferm, fel botwliaeth, ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

food.gov.uk/foodindustry/incidents/monitorprevent/prevent/farmers/

Tîm Cydgysylltu Atal Digwyddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: 020 7276 8735
e-bost: IncidentPrevention@foodstandards.gsi.gov.uk

FSA/1316/0309